Tydi, a roddaist liw i'r wawr

Caneuon Ffydd: Rhif 131

Tydi, a roddaist liw i'r wawr
a hud i'r machlud mwyn,
tydi, a luniaist gerdd a sawr
y gwanwyn yn y llwyn,
O cadw ni rhag colli'r hud
sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.

Tydi, a luniaist gân i'r nant,
a'i su i'r goedwig werdd,
tydi, a roist i'r awel dant
ac i'r ehedydd gerdd,
O cadw ni rhag dyfod dydd
na yrr ein calon gân yn rhydd.

Tydi, a glywaist lithriad traed
ar ffordd Calfaria gynt,
tydi, a welaist ddafnau gwaed
y Gŵr ar ddieithr hynt,
O cadw ni rhag dyfod oes
heb goron ddrain na chur na chroes.

T. ROWLAND HUGHES, 1903–49

MYFYRDOD

Bellach fe aeth dros drigain mlynedd heibio ers cyfansoddi'r emyn hwn gan T. Rowland Hughes a'r dôn iddi hefyd gan Arwel Hughes. Blwyddyn dywyll iawn yn hanes personol Rowland Hughes oedd 1942, yn ôl Edward Rees yn ei gofiant iddo. Roedd ei afiechyd yn gwaethygu, ac yntau'n mynd o feddyg i feddyg heb ddim gwellhad i'w weld yn dod.

Meddyliwch amdano yng nghanol tywyllwch rhyfel byd yn sôn am 'hud sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd'. O sylwi ar fyd Duw, mae'n gweld prydferthwch a thestun cân i'r galon, ond

mae'n ofni hefyd bod pwerau ar waith sydd yn bygwth mygu hynny. Fe wêl Rowland Hughes yn amlwg fod Duw ar waith o'i gwmpas. Sonia Paul hefyd fel y mae Duw i'w weld yn amlwg yn y pethau a greodd o'n cwmpas: 'er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd' (Rhuf. 1:20). A'r rhai nad ydyn nhw'n gweld yn 'ddiesgus'.

Rhyfedda Rowland Hughes at allu a mawredd Duw ac ni allai beidio â chredu yn y cyfnod hwn fod gan Dduw bwrpas ar gyfer ei fywyd yntau hefyd er gwaethaf y boen. Ddychmygodd ef erioed fod blynyddoedd ei enwogrwydd mwyaf o'i flaen. Daeth yn ffigwr amlwg drwy gyfrwng y radio a'i nofelau a'i farddoniaeth.

Roedd Paul hefyd yn un a wyddai am boen ac am wendid; fe gofiwch am ei 'ddraenen yn ei gnawd', ac ef sy'n dweud bod Duw'n ein 'diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder' (2 Cor. 1:4).

Ni fynnai Rowland Hughes fod 'heb goron ddrain na chur na chroes'. Ac ni chawn ni addewid o gwbl pan ddown yn ddisgyblion i Grist fod hawddfyd o'n blaenau, ond fe gawn addewid o 'nerth ei ogoniant ef, i ddyfalbarhau a hirymaros yn llawen ym mhob dim' (Col. 1:11). Ond sut y gallwn ni fod 'yn llawen ym mhob dim'? Am fod Iesu wedi dod i'n plith, wedi mesur ein gwendid ni, yn abl i lwyr gydymdeimlo â ni, ac wedi ennill y fuddugoliaeth dros angau a'r bedd drosom ac yn sefyll gyda ni yn nerth ei Ysbryd Glân bob amser.

Er gwaethaf cur a chroes, beiddiwn gredu 'fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu' (Rhuf. 8:28).

GWEDDI

Fy Arglwydd, yr hwn a fuost ar ffordd Calfaria gynt, yr un a gollaist ddafnau gwaed yn lli, helpa fi i weld dy fwriadau di dy hun ar gyfer fy mywyd i. Ac er gwaethaf y tywyllwch all fod o'm cwmpas, dy fod wrthi'n dwyn daioni allan o'm hamgylchiadau i ac yn sefyll gyda mi ym mhob dim. Yn enw'r Oen fu farw. Amen.